

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Fynwy



2017-2020

Cynnwys

		Tudalen
Adran 1		3
	Gweledigaeth Sir Fynwy ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020	3
Adran 2		
	Cludiant	6
Adran 3		7
	Deilliant 1	7
	Deilliant 2	11
	Deilliant 3	14
	Deilliant 4	14
	Deilliant 5	15
	Deilliant 6	19
	Deilliant 7	21
Atodiad 1	Rhestr Ymgylgoreion Statudol	24
Atodiad 2	Amserlen a Fframwaith ar gyfer Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020	25
Atodiad 3	Data	26
Atodiad 4	Crynodeb Dechreuol - Arolwg Addysg Cyfrwng Cymraeg	29
Atodiad 5	Cynllun Gweithredu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg	33

Adran 1

1. Gweledigaeth Sir Fynwy ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg 2017-20

- 1.1 Daw ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017-2020 ar adeg amserol iawn ar gyfer y Gymraeg yn ein sir. Yn 2016, cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Fynwy am y tro cyntaf mewn dros 100 mlynedd. Mae brwdfrydedd y sir, ei phobl a'i busnesau wrth fanteisio ar y cyfle i hyrwyddo a choleddu'r ŵyl unigryw hon wedi rhoi'r momentwm delfrydol i ni adeiladu gwaddol drwy chwarae ein rhan mewn cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg ar draws y wlad erbyn 2050.
- 1.2 Bum mlynedd ar hugain yn ôl roedd y gyfran o siaradwyr Cymraeg yn y sir yn is nag erioed ac nid oedd fawr ddim i awgrymu y byddai hynt yr iaith byth yn adfywio yn yr ardal. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd dilynol, bu adfywiad hynod yn yr iaith ac yn y cyfnod hwnnw gwelsom gynnydd bedair gwaith drosodd gyda chyfrifiad 2011 yn dangos bod 8,780 o breswylwyr Sir Fynwy yn siarad Cymraeg yn rhugl gyda miloedd eraill â rhyw lefel o allu yn yr iaith.
- 1.3 Gwelodd 2016 gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda nod glir i gyrff cyhoeddus weithio tuag at Gymru lle mae diwylliant a'r Gymraeg yn ffynnu. Mae gennym hefyd ein set ein hunain o Safonau'r Gymraeg yn dilyn cyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae un o'r Safonau yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi strategaeth 5 mlynedd, fydd yn dangos sut y byddwn ni fel Cyngor yn hyrwyddo'r iaith a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y sir. Yn ychwanegol at hyn mae strategaeth Mwy na Geiriau 2012 yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg mewn gosodiadau gofal cymdeithasol drwy fabwysiadu'r "cynnig gweithredol" o ddewis iaith yn narpariaeth gwasanaethau gofal. Yn sail i bopeth uchod yw ein hymrwymiad i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol a amlinellwyd yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru.
- 1.4 Credwn fod y sail ddeddfwriaethol newydd yma a brwdfrydedd pobl Sir Fynwy at yr iaith yn golygu ein bod mewn sefyllfa delfrydol i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau gwaddol parhaus yn y sir er budd preswylwyr presennol a dyfodol ac ymwelwyr i'r gornel arbennig hon o Gymru.
- 1.5 Y weledigaeth ar gyfer ein sir yw adeiladu cymunedau dwyieithog cynaliadwy a chadarn ar draws y sir. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau ein bod yn gweithio tuag at gyflawni'r nodau troswaol dilynol:
 1. Sicrhau fod y Gymraeg yn fyw a deinamig ac yn cael ei gwerthfawrogi ar draws y sir
 2. Rhoi seilwaith fel y gall pobl gysylltu gyda'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg
 3. Sicrhau fod pobl yn cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg

4. Addysgu mwy o'n plant a phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg
5. Rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac fel rhan arferol o fywyd bob dydd.

- 1.6 Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth a'n nodau rydym yn cydnabod fod ein system addysg yn floc adeiladu sylfaenol tuag at greu siaradwyr Cymraeg newydd a thrwy wneud hynny, y gallant hwythau yn eu tro drosglwyddo'r iaith i genedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ni fel sir wneud newidiadau eang i'r ffordd yr ydym yn cynllunio, darparu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd nesaf fel y bydd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddewis realistig a hygyrch i rieni a disgyblion yn y dyfodol. Mae agor Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn rhoi addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg sy'n hygyrch yn lleol i ddisgyblion yn rhan ddeheuol ein sir. Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn gam sylweddol ymlaen tuag at sicrhau'r capasiti angenrheidiol i ysgogi galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg ar draws ein sir.
- 1.7 Er mwyn cyflawni ein nodau bydd angen i ni ddatblygu ein gwaith gyda phartneriaid allweddol ar draws rhanbarth y De Ddwyrain. Bydd hyn yn sicrhau fod gan ein hysgolion a darparwyr addysg yr holl sgiliau a'r capasiti angenrheidiol i wella safonau yn y Gymraeg o fewn ysgolion, teuluoedd ac ar draws cymunedau a'r gweithle. Yn yr un modd, bydd angen i ni weithio'n agos gyda phartneriaid yn ehangach megis yr Urdd a'r Fenter Iaith i ymestyn y cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ddefnyddio a hefyd ddysgu'r iaith mewn bywyd bob dydd.
- 1.8 Byddwn yn cymryd y camau dilynol dros y tair blynedd nesaf er mwyn cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg ar draws sir Fynwy a gwireddu ein gweledigaeth:
1. Sicrhau bod ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn flaenoriaeth strategol i Sir Fynwy.
 2. Cyflwyno ffyrdd mwy effeithlon i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion a rhieni i ysgogi mwy o alw yn ein hysgolion cynradd drwy ddarparu gwell gwybodaeth a mynediad rhwyddach i ysgolion a gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
 3. Gweithredu systemau cadarn a dibynadwy i fesur a chynllunio ar gyfer darpariaeth y dyfodol a gweithlu gyda sgiliau addas i ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.
 4. Sicrhau fod ein rhaglen Band B Ysgolion y 21ain Ganrif yn gydnaws gyda'n Cynllun Strategol i hwyluso'r twf disgwylidig mewn galw erbyn 2020 ac yn cefnogi galw'r dyfodol a ddynodwyd yn ystod oes y cynllun hwn.
 5. Cynyddu canran y plant a phobl ifanc Sir Fynwy sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 3 yn unol ag arolygon galw gan rieni sy'n cyfateb i 7.2% (45 o ddisgyblion) erbyn 2020.
 6. Cynyddu cyfradd trosglwyddo rhwng cyfnod allweddol 2 a 3 i 95% erbyn 2020.

7. Cynyddu'r canran o bobl ifanc yn Sir Fynwy sy'n gadael yr ysgol gyda sgiliau dwyieithog y gellir eu defnyddio yn y gweithle i 10% (1,100 o ddisgyblion) erbyn 2020.
8. Sicrhau nad oes unrhyw fylchau yn ein darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a chynhwysiant drwy gyfrwng y Gymraeg fel y gallwn sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer ein holl ddysgwyr.
9. Adolygu aelodaeth a rôl ein Fforwm Cymraeg mewn Addysg i adlewyrchu holl argymhellion Llywodraeth Cymru.
10. Cefnogi ein gweithlu addysg i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gyflwyno'r cwricwlwm newydd drwy gyfrwng y Gymraeg.
11. Cydweithio'n agos gyda'n partneriaid rhanbarthol, yn cynnwys Coleg Gwent, i hwyluso a datblygu cyfleoedd i alluogi mwy o ddysgwyr i astudio ystod ehangach obynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
12. Sicrhau fod yn rhwydd i rieni gael mynediad i'r holl wybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg drwy ein gwefan, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a holl ffrydiau cyfathrebu eraill Sir Fynwy.
13. Gweithio gyda phartneriaid ehangach fel Mudiad Meithrin, yr Urdd, y Fenter Iaith a Chymraeg i Blant er mwyn cefnogi darparu gwybodaeth er mwyn ysgogi'r galw.
14. Gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid rhanbarthol i gefnogi dysgwyr sy'n hwyrdyfodiaid ar draws pob cyfnod.
15. Adolygu ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn rheolaidd fel bod y wybodaeth a gawn o'n harolygon a gwerthusiadau parhaus yn sylfaen briodol i ddiwygiadau i'n cynllun i ateb y newid yn ein hanghenion.

- 1.9 Mae ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gydnaws iawn â'n gofyniad dan Fesur y Gymraeg (Cymru) i ysgrifennu Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd ar gyfer Cyngor Sir Fynwy 2017-2022. Yn ychwanegol mae ein Cynllun Strategol yn bwydo i mewn i ac yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.
- 1.10 Mae'r holl ymgynghoreion a restrir yn Atodiad 1 wedi derbyn fersiwn drafft o'n Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Byddwn yn dilyn yr amserlen a'r fframwaith ar gyfer ymgynghori a gweithredu a amlinellir yn Atodiad 2. Bydd yr ymgynghoreion yn derbyn copi o'r fersiwn terfynol yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.
- 1.11 Fforwm Addysg Gymraeg
Sefydlwyd ein Fforwm Addysg Gymraeg yn 2014 ac mae'n cwrdd unwaith y tymor.

Y partneriaid sy'n mynychu yw:

Cynrychiolwyr lefel uwch o ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Cyngor Sir Fynwy, Swyddog y Gymraeg Cyngor Sir Fynwy, Menter Iaith Blaenau Gwent Torfaen Mynwy, Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG), yr Urdd a'r Mudiad Meithrin.

Prif amcanion y Fforwm yw fel a ganlyn:

- Sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg **ar gael i bawb**, gyda throsglwyddo effeithlon rhwng oedrannau a chyfnodau;
- Dangos fod addysg cyfrwng Cymraeg yn **gynhwysol**, yn goresgyn rhwystrau a gallu unrhyw berson ifanc i sicrhau lefel dda o addysg;
- **Dathlu** a hyrwyddo'r Gymraeg drwy addysgu ansawdd uchel a herio galluoedd dysgu plant;
- Defnyddio **gweithio partneriaeth** i hyrwyddo a chynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Adran 2

2. - Cludiant

- 2.1 Mae Sir Fynwy yn cydymffurfio gyda gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 drwy ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unol â'n polisi cludiant lleol. Mae hyn yn golygu fod gan ddisgyblion cynradd sy'n byw yn Sir Fynwy hawl i wneud cais am gludiant am ddim i fynychu eu hysgol gynradd cyfrwng Cymraeg agosaf ac sy'n byw
 - mwy na 1.5 milltir neu i fynychu eu hysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg agosaf neu
 - 2 filltir o bellter cerdded o'u hysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg agosaf.
- 2.2 Nid yw dysgwyr ôl-16 yn Sir Fynwy yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. Gall dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol wneud cais am gludiant rhatach.
- 2.3 Bydd yr awdurdod yn adolygu ein Polisi Cludiant Ysgol yn y flwyddyn academaidd nesaf 2018/19 fel rhan o adolygiad ehangach o wasanaethau. Bydd yr holl bryderon a godwyd drwy broses ymgynghori'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ffurfio rhan o'r adolygiad hwn ac yn sylfaen i'r polisi newydd.

Adran 3

3. Deiliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Y sefyllfa bresennol yn ymwneud â'r nifer o blant saith oed a gaiff eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'n targedau am y tair blynedd nesaf yw:

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Y canran o blant saith oed a gaiff eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yw 6% (54 disgybl)	5.5% (55 disgybl)	6.8% (61 disgybl)	6.8% (60 disgybl)
	Gwirioneddol (CYBLD Ionawr 18): 5.6% (50 disgybl)	Disgwyliedig (rhifau cyfredol) 5.6% (52 disgybl)	Disgwyliedig (rhifau cyfredol blwyddyn 1) 5.3% (47 disgybl)

3.1 Ein hamcanion ar gyfer cyflawni'r deiliant hwn yw:

- Gweithio mewn partneriaeth gyda swyddogion y Mudiad Meithrin i sefydlu Cylch Meithrin yn ne'r sir erbyn mis Medi 2018;
- Cynyddu cyfraddau trosglwyddo holl ddisgyblion Sir Fynwy sy'n mynychu Cylch Meithrin i 100% erbyn mis Medi 2020;
- Mynd i'r afael â phwysau byrdymor mewn addysg cyfrwng Cymraeg yng ngogledd y sir drwy ail-leoli gwasanaethau o fewn yr ardal i ryddhau gofod ychwanegol i'r ysgol gynradd;
- Datblygu darpariaeth ar gyfer addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn y sir o fewn Band B rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif 2019-2023 i ddarparu ar gyfer galw'r dyfodol tu hwnt i 2022;
- Diwygio cynnwys ein 'Llyfryn Dechrau Ysgol' i gynnwys manteision addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys cyfeirio rhieni at wybodaeth marchnata a hyrwyddo a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, Menter Iath, Mudiad Methrin and RhAG i godi ymwybyddiaeth o argaeledd cludiant am ddim ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd dolenni electronig i'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar ein gwefan MonFis. Bwriadwn i hyn fod ar gael i rieni mewn pryd ar gyfer y cylch derbyn nesaf yn 2018;
- Gweithio mewn partneriaeth gyda chonsortia De Ddwyrain Cymru i sefydlu arolwg blynyddol ar alw rhieni yn y rhanbarth am addysg cyfrwng Cymraeg erbyn mis Rhagfyr 2018;

- Cynnal arolygon blynyddol o alw rhieni mewn ardaloedd wedi'u targedu yn y sir o 2017/18 i gynyddu'r ymatebion, yn arbennig mewn ardaloedd a ddynodwyd megis gogledd-ddwyrain y sir;
- Datblygu prosesau ar gyfer gosod targedau tymor hwy i fwy o blant saith oed i gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i ysgogi galw mwy na'r ddarpariaeth bresennol.

- 3.2 Ar hyn o bryd, mae Sir Fynwy yn cynnal dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, un yng ngogledd y sir a'r llall yn ne'r sir gyda capasiti rhyngddynt o 415. Bu gan y ddwy ysgol cyfrwng Cymraeg ddalgylch penodol ers mis Medi 2016. Mae disgyblion Sir Fynwy yn derbyn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg un ai yn Ysgol Gyfun Gwynllyw neu, ers mis Medi 2016, yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed. Yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ionawr 2016, caiff 4.8% o blant oedran cynradd Sir Fynwy eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.3 Mae gan Ysgol Gymraeg y Ffin yng Nghil-y-coed gapasiti o 180 disgybl a bwriedir cynyddu'r capasiti i 210. Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw ei ymrwymiad i'r gymuned i gynyddu capasiti'r ysgol i 210 wrth i nifer disgyblion gyrraedd y lefel hon. Mae 143 disgybl ar y gofrestr ar hyn o bryd sy'n golygu fod gan yr ysgol 37 (20.5%) o leoedd gwag. Mae gan yr ysgol feithrinfa yn y bore a gyllidir gan yr Awdurdod Lleol. Mae capasiti i gynnal uned feithrin yn y prynhawn fodd bynnag mae anawsterau wrth recriwtio staff gyda chymwysterau addas wedi oedi agor y ddarpariaeth ychwanegol hon. Mae Sir Fynwy yn parhau i weithio'n agos gyda'r ysgol a phartneriaid allweddol megis y Mudiad Meithrin i sefydlu'r ddarpariaeth hon cyn gynted ag sydd modd ac yn bendant dros oes y cynllun hwn.
- 3.4 Mae amcanestyniadau cyfredol yn awgrymu fod y ddarpariaeth yn Ysgol Gymraeg y Ffin yn ddigonol am y 4 blynedd nesaf, gydag amcanestyniad o 134 o blant ar gyfartaledd ar y gofrestr dros y 4 blynedd nesaf. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu ein hamcanestyniadau dysgwyr yn flynyddol i sicrhau ein bod yn deall y cynnydd yn y galw mewn da bryd ac yn cynllunio i'w cyflawni yn amserol. Rhagwelwn y bydd galw cynyddol yn y maes hwn yn dilyn sefydlu Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, yn enwedig pan mae'n symud i'w safle parhaol ym Medi 2018.
- 3.5 Disgwyliwn weld newidiadau sylweddol yn ne'r sir a gaiff ei yrru gan ddileu tollau pontydd Hafren yn cynnwys ehangiad mewn datblygiadau tai, cynnydd mewn prisiau tai a galw cynyddol ar leoedd ysgol. Bydd effaith y newid hwn ar y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg ac argaeledd staff gyda chymwysterau addas i gyflwyno addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cymryd tair i bum mlynedd i sefydlu. Caiff unrhyw oblygiadau yn deillio o'r newid hwn eu cynnwys yn ein rhaglen 21ain Ganrif dros y deng mlynedd nesaf. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod i gymryd penderfyniadau gwybodus i sicrhau fod y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg a'r argaeledd yn cyfateb. Yn y cyfamser, bydd yr Awdurdod Lleol yn datblygu protocol a gytunwyd ar gyfer diffinio unrhyw ysgolion newydd yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- 3.6 Mae gan Ysgol Gymraeg y Fenni gapasiti o 235 disgybl. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer 210 o leoedd disgyblion ar hyn o bryd. Mae'r nifer bresennol ar y gofrestr yn yr ysgol yn 221 sy'n golygu fod 14 (5.9%) o leoedd gwag ar hyn o bryd. Ym mis Ebrill 2016, sefydlodd yr Awdurdod Lleol uned feithrin a gynhelir ar safle'r ysgol sy'n cyflwyno sesiynau prynhawn yn darparu lleoedd ar gyfer 30 disgybl.
- 3.7 Mae amcanestyniadau cyfredol yn awgrymu y bydd Ysgol Gymraeg y Fenni yn cyrraedd ei chapasiti llawn ym Medi 2017 ac y bydd rhai grwpiau blwyddyn yn orlawn. Gan ragweld y pwysau hwn, mae'r Awdurdod Lleol wedi rhyddhau gofod ychwanegol i'r ysgol gynyddu ei chapasiti i ddarparu ar gyfer y cynnydd hwn yn y tymor byr. O fis Medi 2017 bydd y Cylch Meithrin yn symud i adeilad cyfagos ac yn rhyddhau gofod ychwanegol i'r ysgol. Bydd y symudiad hwn yn galluogi'r Cylch Meithrin i ehangu ei ddarpariaeth gofal plant amlap cyfrwng Cymraeg a darpariaeth Dechrau'n Deg.
- 3.8 Mae Sir Fynwy yn bwriadu cynyddu capasiti lleoedd cyfrwng Cymraeg i gydnabod y cynnydd yn y galw am leoedd yn gyffredinol. Bydd ein cynlluniau ar gyfer rhaglen buddsoddi Ysgolion y 21ain ganrif (2019-2023) yn cefnogi hyn drwy ddatblygu darpariaeth arloesol ar gyfer cyfnod allweddol 3 a 4 drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi disgyblion Cymraeg Sir Fynwy i barhau â'u haddysg uwchradd o fewn y sir. I gefnogi'r datblygiad hwn, cynigiwn y dylid symud Ysgol Gynradd Gymraeg y Fenni a'r Cylch Meithrin i safle Deri View er mwyn cynyddu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg o 231 i 420 i fwydo'n uniongyrchol i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er mwyn hwyluso'r newid hwn, rydym yn cynnig sefydlu cyfnod allweddol 3 i chwilio am ddarpariaeth o'r maes Cymraeg ar safle Deri View. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer y twf yn y galw a ragwelir yng ngogledd orllewin y Sir, ar gyfer ein disgyblion yn y dyfodol, a sicrhau dilyniant ar y cyfnod pontio. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Sir Fynwy yn parhau i adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd er mwyn llywio'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg nesaf.
- 3.9 Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cydnabod yr angen i ddiwallu'r galw sy'n dod i'r amlwg am ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Trefynwy ac i sicrhau darpariaeth ddigonol i ateb y galw cynyddol mewn blynyddoedd i ddod. Er mwyn cyflawni hyn, cynigiwn y dylid datblygu egin ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyda'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn ardal Trefynwy o fewn y tair blynedd nesaf, ac ar yr un pryd, datblygu darpariaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn ne'r Sir ar safle Ysgol y Ffin.
- 3.10 Mae cyfradd trosglwyddo o osodiadau addysg Blynyddoedd Cynnar cyfrwng Cymraeg Sir Fynwy i ddosbarthiadau Dosbarth cyfrwng Cymraeg yn y sir yn amrywio rhwng 85% a 95% o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r amrywiad hwn yn cynnwys plant o'r tu allan i'r sir sy'n derbyn addysg Blynyddoedd Cynnar cyfrwng Cymraeg ar gyfer y dosbarth Derbyn a'r rhai sy'n trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Saesneg lleol eraill o fewn y sir. Yn 2016 er enghraifft, mae

39 allan o'r 46 o blant (85%) wedi trosglwyddo o Addysg Gynnar cyfrwng Cymraeg (gosodiadau Awdurdod Lleol a gosodiadau nas cynhelir) i ddosbarth Derbyn cyfrwng Cymraeg yn y sir. Fe wnaeth pob un o'r saith plentyn na throsglwyddodd i ddosbarth Derbyn cyfrwng Cymraeg yn 2016 dderbyn lle mewn ysgol arall leol cyfrwng Saesneg.

- 3.11 Mae'r amcanestyniadau cyfredol yn awgrymu'n gryf y bydd y galw yn parhau i dyfu yng ngogledd y sir. Bydd y sir yn ystyried amrywiaeth o fodolau ac opsiynau i drin y pwysau hwn a chefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r awdurdod wrthi'n adolygu eu rhaglen buddsoddi ar gyfer y cais i Band B ysgolion y 21ain Ganrif i'w weithredu yn 2019-2023.
- 3.12 Cyfyngwyd y targedau o fewn y Cynllun Strategol hwn i dair blynedd y cynllun ac mae felly wedi cyfyngu ein gallu i fod mor uchelgeisiol ag yr hoffem fod. Fodd bynnag, byddwn yn datblygu prosesau i osod targedau i anelu atynt dros y cyfnod hirach (5 i 10 mlynedd) i adlewyrchu'r cynnydd mewn galw y disgwylwn ei weld a'r galw ychwanegol y byddwn yn ymdrechu i'w greu drwy weithredu'r Cynllun Strategol.
- 3.13 Mae Sir Fynwy, gan gydweithio gyda Chasnewydd, wedi sefydlu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd yn llwyddiannus ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ne'r sir yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yng Nghasnewydd. Dechreuodd deuddeg disgybl o Sir Fynwy yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ym mis Medi 2016 ac mae deuddeg arall yn bwriadu trosglwyddo yno ym mis Medi 2017. Mae cyflwyno darpariaeth yng ngogledd y sir yn parhau drwy ein trefniant cydweithio sydd wedi hen ennill ei blwyf gyda Chyngor Sir Torfaen. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau fod darpariaeth uwchradd yn gadarn ar gyfer ein disgyblion 11-19 dros y 4 mlynedd nesaf.
- 3.14 Bydd yr Awdurdod yn parhau i sicrhau fod ganddo nifer ddigonol o leoedd yn y ddwy ysgol uwchradd i ateb y cynnydd disgwyliedig mewn galw o'r sir yn y tymor byrrach. Mae Sir Fynwy yn cydnabod yr angen i gynllunio a pharatoi gyda'i bartneriaid i ddiwallu cynnydd pellach mewn darpariaeth uwchradd ar ôl 2022 a disgwylir y daw hyn o fewn Rhaglen Amlinellol Strategol Ysgolion y 21ain Ganrif.
- 3.15 Bydd Sir Fynwy yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol yn Nhorfaen a Chasnewydd i gefnogi cydweithio rhwng Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ac Ysgol Gyfun Gwynllyw i gyflwyno darpariaeth ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Sir Fynwy yn cryfhau cysylltiadau gyda Choleg Gwent ar yr un pryd er mwyn datblygu mynediad ehangach i amrywiaeth o gyrsiau galwedigaethol a gyflwynir drwy gyfrwng o Gymraeg.
- 3.16 Caiff gwybodaeth o'n Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017 ei gynnwys yn ein Cynllun Gweithredu Gofal Plant tair blynedd. Mae'r adborth o'r arolwg yn dangos galw cynyddol am ofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth iaith, yn neilltuol yn ne'r sir, dros y tair blynedd nesaf. Ar yr un pryd, rhagwelwn gynydd yn y galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn dilyn gweithredu'r cynnig gofal plant 30 awr ar gyfer rhieni mewn gwaith ar draws Sir Fynwy.

- 3.17 Mae'r Cylch Meithrin yn y Fenni yn cynnig hyd at wyth lle cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant o fewn ardal leol Dechrau'n Deg. Bydd symud i safle newydd ym mis Medi 2017 yn rhoi mwy o le i'r Cylch Meithrin gynyddu capasiti i gyflawni ac ysgogi twf mewn galw dros y pum mlynedd nesaf. Dyma'r unig ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Dechrau'n Deg sydd gennym ar draws y sir ar hyn o bryd a byddwn yn gweithio'n agos gyda Mudiad Meithrin a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu Cylchoedd Methirin pellach.
- 3.18 Mae ein 'Llyfryn Dechrau Ysgol' yn cynnwys gwybodaeth am wneud cais am le mewn ysgol cyfrwng Cymraeg o fewn y sir. O 2018, bydd y llyfryn yn cynnwys gwybodaeth benodol ar fanteision addysg cyfrwng Cymraeg ac mae'n cyfeirio rhieni at ddeunydd hyrwyddo ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae rhieni'n derbyn ein 'Llyfryn Dechrau Ysgol' ar yr un pryd â'r ffurflenni cais ar gyfer ysgolion. Mae'r ddau ar gael ar wefan Sir Fynwy. Gall rhieni gael gwybodaeth ychwanegol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy MonFIS, ein Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Rydym yn parhau i adolygu sut i hwyluso mynediad i wybodaeth am ein hysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws pob ffynhonnell; yn cynnwys ein gwefan a MonFIS i sicrhau fod tegwch rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.
- 3.19 Nid ydym wedi darparu cefnogaeth i hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol oherwydd na fu galw am y gwasanaeth hwn o fewn y sir. Fodd bynnag, rydym yn gweld cynnydd bach iawn yn y sir wrth i nifer y dysgwyr sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd a hefyd y cyfnod uwchradd gynyddu. Wrth i'r galw am leoedd yn ne'r sir gynyddu oherwydd dileu tollau pontydd Hafren, rhagwelwn y bydd nifer yr hwyrddyfodiaid i addysg Gymraeg yn cynyddu, yn arbennig yn yr ardal hon. Er mwyn ateb yr angen disgwylidig, bydd Sir Fynwy yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu a sicrhau darpariaeth effeithlon ac addas ar gyfer dysgwyr hwyr i'r Gymraeg yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol hwn.

4. Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Sefyllfa Bresennol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Y canran presennol o ddysgwyr ym Mlwyddyn 9 a gaiff eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) yw 4.5% (37 disgybl)	100% (27 disgybl)	100% (36 disgybl)	100% (38 disgybl)
Cymhariaeth Blwyddyn 6 gyda'r canran o ddysgwyr a gaiff eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) dair blynedd yn gynharach yw 4.6% (42 disgybl)	85.6% (36/42 disgybl)	100% (43/43 disgybl)	100% (38/38 disgybl)

- 4.1 Ein hamcanion ar gyfer cyflawni'r deilliant hwn yw:
- Gweithio gyda swyddogion y Mudiad Meithrin i sefydlu ail gylch meithrin yn ne'r sir erbyn 2020.
 - Cynyddu cyfraddau trosglwyddo holl ddisgyblion Sir Fynwy sy'n mynychu cylchoedd meithrin i 100% erbyn mis Medi 2020.
 - Cynyddu lefelau cyfraddau trosglwyddo o ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg i 95% erbyn 2020.
 - Gweithio mewn partneriaeth gyda'r consortia i sefydlu darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion sy'n ymuno ag addysg cyfrwng Cymraeg yn hwyrach na'r dosbarth Derbyn wrth i'r galw gynyddu
- 4.2 Hyd yn ddiweddar iawn, roedd mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion Sir Fynwy wedi ei gyfyngu i Ysgol Gyfun Gwynllyw ym Mhont-y-pŵl. Er y bydd mynediad i'r ddarpariaeth hon yn sicrhau addysg barhaus drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer disgyblion yn trosglwyddo i ysgol uwchradd, roedd y galw o'r ddwy ysgol yn sir Fynwy yn amrywio. Roedd dwy brif ffactor yn cyfrannu at y patrwm hwn. Y gyntaf oedd bod yn rhaid i blant yn ne'r sir deithio lawer ymhellach ac fel canlyniad, roedd yr amser a gymerwyd i deithio i'r ysgol yn ymestyn y diwrnod ysgol yn sylweddol. Yn ail, roedd diffyg darpariaeth hygyrch yn atal rhieni rhag dewis addysg cyfrwng Cymraeg o'r dechrau oherwydd eu bod yn ansicr os gallai neu a fyddai eu plentyn yn parhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ein hamcanestyniadau cyfredol yn seiliedig ar y niferoedd presennol a thybiaeth y bydd pawb yn trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu hyn yn rheolaidd i sicrhau fod ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ystod y tair blynedd nesaf.

- 4.3 Mae agor Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yng Nghasnewydd ym mis Medi 2016 yn rhoi cyfle a sicrwydd i ddisgyblion yn ne Sir Fynwy i barhau i gael mynediad i addysg yn lleol a thrwy gyfrwng y Gymraeg wrth iddynt drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.
- 4.4 Fel canlyniad, y disgwyliad yw y bydd cynnydd yn y gyfran o ddisgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol y Ffin i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed o fis Medi 2017, fydd yn cynyddu cyfanswm cyfran disgyblion Sir Fynwy sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg.
- 4.5 Fel canlyniad, rydym hefyd yn disgwyl gweld cynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ein gosodiadau Blynyddoedd Cynnar a dosbarthiadau Derbyn oherwydd bod y rhan fwyaf o rieni'n gwneud y dewis hwn ar gyfer eu plentyn pan fyddant yn ifanc. Mae hefyd yn bosibl y byddwn yn gweld galw ar gyfer brodyr a chwiorydd hŷn sy'n dymuno trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol y cyfnod cynradd.
- 4.6 Os yw'r galw hwn yn dod i fod wrth i nifer y dysgwyr tro cyntaf sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg gynyddu, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu darpariaeth addas fel yr amlinellir yn 3.13 uchod.
- 4.17 Mae amser cludiant ar gyfer disgyblion a chostau cysylltiedig yn parhau'n faes consyrn a ddynodwyd drwy'r broses ymgynghori ar gyfer pob cyfnod ysgol. Fel y nodir uchod, bydd Sir Fynwy yn adolygu cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg o fewn ei adolygiad ehangach o gludiant ar gyfer pob disgybl a chodi ymwybyddiaeth rhieni am argaeledd cludiant am ddim ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

5. Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.

Canran dysgwyr a gyflwynwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a gyflwynwyd am o leiaf ddau gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Mae'r holl ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg (100%) yn mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw	100%	100%	100% Pob disgybl yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed o 2020-2021

Canran myfyrwyr a gyflwynwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a gyflwynir am o leiaf bump cymhwyster lefel 1 neu lefel 2 pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Mae'r holl ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg (100%) yn mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw	100%	100%	100%

5.1 Ein hamcanion ar gyfer cyflawni'r deilliant hwn yw:

- Cynnal y canran presennol o ddisgyblion sy'n dechrau ar TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) ac o leiaf ddau gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 pellach drwy gyfrwng y Gymraeg am y tair blynedd nesaf.
- Sicrhau y bydd capasiti o fewn ysgol newydd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed i ateb y galw cynyddol am leoedd gan ddisgyblion Sir Fynwy erbyn Medi 2020.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Casnewydd i sicrhau fod darpariaeth ar gyfer myfyrwyr 14-16 oed yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn cydymffurfio gyda Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.
- Cynnal darpariaeth 14-19 ar lefel gweithgareddau darpariaeth grant 14-19 erbyn Medi 2019.
- Gweithio drwy'r Rhwydweithiau 14-19 a Fforymau Rhanbarthol 14-19 i gynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd nesaf.

- 5.2 Tan yn ddiweddar, roedd bron pob un o ddisgyblion Sir Fynwy sydd mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Gwynllyw yn Nhorfaen. Fodd bynnag, ers Medi 2016 mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yng Nghasnewydd wedi agor, gan ddarparu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg sy'n fwy daearyddol hygyrch i ddysgwyr yn ne'r Sir.
- 5.3 Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio'n agos gyda Chyngor Sir Casnewydd a'r GCA i sicrhau fod y cyfleuster newydd yn cydymffurfio'n llawn â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 a'i fod yn cyflawni'r amcan allweddol o wella deilliannau a chyrhaeddiad dysgwyr 14-19.
- 5.4 Mae pob disgybl (100%) o Sir Fynwy sy'n mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw ar hyn o bryd yn sefyll dau TGAU mathemateg, dau TGAU gwyddonol a thri TGAU opsiynol yn ogystal â Bac Cymru. Mae'r ysgol yn cyflwyno'r holl gymwysterau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg ac maent yn ychwanegol at Gymraeg (Iaith Gyntaf) / Llenyddiaeth Gymraeg. Disgwylwn gadw'r tueddiad 100% hwn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 dros y tair blynedd nesaf.
- 5.5 Mae Ysgol Gyfun Gwynllyw yn gweithio'n effeithlon mewn partneriaeth gydag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a bu'r ddwy ysgol yn flaengar wrth sicrhau darpariaeth 14-19 iach drwy strategaeth 'Partneriaeth 6'. Mae dileu'r grant 14-19 yn achosi bygythiad sylweddol i'r strategaeth hon ac i argaeledd cyrsiau i ddisgyblion Sir Fynwy sy'n mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid a darparwyr rhanbarthol i leihau unrhyw effaith a allai godi.
- 5.6 Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gyfun Gwynllyw yn cynnig 25 cwrs ar gyfer dysgwyr 14-16 a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg a 30 cwrs ar gyfer dysgwyr 16-19. Mae pwysau cyson i sicrhau niferoedd hyfyw i ariannu'r un nifer ac ystod cyrsiau. O ystyried yr ansicrwydd posibl, efallai y bydd y ddwy ysgol yn ystyried gostwng nifer y cyrsiau ôl-16 y maent yn eu cynnig a bydd Sir Fynwy yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i archwilio cyfleoedd i gynnal neu ymestyn y ddarpariaeth bresennol ar draws nifer o ddarparwyr.
- 5.7 Mae costau cludiant yn rhoi straen ychwanegol ar hyfywedd ac argaeledd cyrsiau a bydd angen ei ddatrys ar lefel ranbarthol.
- 5.8 Hyd yma, bu Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a hefyd Ysgol Gyfun Gwynllyw yn greadigol wrth ddatblygu trefniadau ar gyfer staff i deithio i addysgu cyrsiau eraill neu sydd â galw isel. Fodd bynnag nid yw hyn yn hyfyw yn ariannol mwyach yn dilyn dileu'r grant oherwydd niferoedd isel.
- 5.9 Er mwyn cynyddu adnoddau i'r eithaf, bydd yr ysgolion yn dadansoddi'r data i ddynodi cyrsiau llwyddiannus a chyflawniad uchel sy'n diwallu anghenion dysgwyr fel y gall cefnogaeth barhau i'r cyrsiau hyn.
- 5.11 Yn hanesyddol, cafodd Ysgol Gyfun Gwynllyw ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni eu dadansoddi ar y cyd a defnyddiwyd data ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19 oed i gynllunio ar y cyd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg

ôl-16. Bydd y bartneriaeth hon yn awr yn cynnwys Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

- 5.12 Er bod y Fforymau 14-19 wedi dod i ben yn swyddogol, mae CYDAG De Ddwyrain Cymru yn parhau i gwrdd i ymchwilio arferion parhaus fel trefnu cynadleddau a chyfarfodydd cydweithio staff oedd yn eu lle hyd fis Mawrth 2016. Bydd hyn yn cyflwyno lefel creadigrwydd ac ymrwymiad rhwng aelodau i sicrhau parhad yn y dyfodol.

6. Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
<p>Canran y dysgwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd pob cyfnod allweddol yn Sir Fynwy yw:</p> <p>Cyfnod Sylfaen Deilliant 5+ 98.1% Cyfnod Allweddol 2 Lefel 4+ 86.8% Cyfnod Allweddol 3 Lefel 5+ DdG Cyfnod Allweddol 4 A*- C DdG</p> <p>Canran y dysgwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Saesneg a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd pob cyfnod allweddol yn Sir Fynwy yw:</p> <p>Cyfnod Allweddol 2 Lefel 4+ 88.4% Cyfnod Allweddol 3 Lefel 5+ 88.7% Cyfnod Allweddol 4 A*- C Cwrs Llawn 48% Cyfnod Allweddol 4 A- C Cwrs Byr 54.8%</p>	<p>Gwir</p> <p>93.8%</p> <p>94%</p> <p>DdG</p> <p>DdG</p> <p>96.1%</p> <p>93%</p> <p>63%</p>	<p>Bellach mae'n ddisgwyliad Llywodraeth Cymru y dylai targedau ysgol ond eu defnyddio i gefnogi hunanwerthuso a dylai ni chaniateir cyfuno hyd at awdurdod lleol neu ranbarthol Mesur perfformiad</p>	

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Canran disgyblion Sir Fynwy mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n astudio TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs llawn yn 2016 yw: 49.6%	76% Gwir - 52.2%	85%*	94%*
Canran disgyblion Sir Fynwy mewn ysgolion Saesneg sy'n astudio Cyfnod Allweddol 5 UG Cymraeg Ail iaith yn 2016 yw:	5% Gwir - 6.75%	7%*	15%*
Canran disgyblion Sir Fynwy mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n astudio Cyfnod Allweddol 5 Safon Uwch Cymraeg Ail iaith yn 2016 yw: 6.1%	3.5% Gwir - 8.3%	4%*	10%*

* Mae'r targedau yn rhai dros dro ac nid ydynt yn seiliedig ar ddata ar lefel disgybl

- 6.1 Ein hamcanion ar gyfer cyflawni'r deilliant hwn yw:
- Adolygu dosbarthiad y grant Ôl-16 yn 2017/18 i gefnogi trefniadau cydweithio ar draws ysgolion yn Sir Fynwy a thrwy wneud hynny i gynyddu cyfanswm y ceisiadau Cymraeg Ail Iaith Safon UG/Uwch fel cyfran o'r holl gynigion.
 - Sicrhau bod trefniadau priodol i gefnogi myfyrwyr CA4 o Sir Fynwy i symud ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg ar CA5 erbyn 2020.
 - Annog holl ysgolion Sir Fynwy i ddatblygu mwy o gapasiti Cymraeg drwy gymryd rhan yn strategaethau Llywodraeth Cymru megis y Cynllun Sabothol Cymraeg a'r rhaglen Cymhorthwyr Ystafell Dosbarth y gellir eu teilwra i ateb yr angen.
 - Annog ysgolion cyfrwng Saesneg i gynyddu darpariaeth ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith ar CA3 a CA4 fel y cynyddir galw am TGAU Cwrs Llawn o 59.2% (llynell sylfaen 2015) ac y defnyddir y ddwy iaith yn eang fel cyfryngau cyfathrebu.
 - Gosod targedau cadarn gydag ysgolion uwchradd i gynyddu galw ar gyfer TGAU Cymraeg Cwrs Llawn pan ddaw'r Cwrs Byr presennol i ben yn 2018 o 32.2% (2015) i 80% erbyn 2020.
 - Datblygu darpariaeth ranbarthol ar gyfer dysgwyr tro cyntaf yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg fel yr amlinellir yn 3.13 uchod.
 - Gweithio gyda phartneriaid ehangach i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.2 Mae perfformiad yn Cymraeg Iaith Gyntaf yn gryf yn Sir Fynwy yn y Cyfnod Sylfaen a hefyd CA2, gyda pherfformiad yn 2016 yn uwch na chyfartaledd Cymru ar y lefel a ddisgwyllir ar ddiwedd y ddau gyfnod.
- 6.3 Bydd gan y ddwy ysgol yn Sir Fynwy fynediad i ystod o raglenni llythrennedd Cymraeg a datblygiad proffesiynol parhaus drwy eu hymwneud gyda rhwydwaith llythrennedd ranbarthol y GCA a chefnogaeth uniongyrchol gan gynghorydd llythrennedd Cymraeg. Bydd hyn yn eu galluogi i adeiladu ar eu cyflawniadau presennol a pharhau i wella. Mae'r rhaglenni sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys cynllun 'Cyfathrebu'n Gyntaf' ar gyfer llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen ac 'Ar Lafar', 'Y Darllenwr Dygn', 'Ditectifs Darllen' a 'Seiliau Sgrifennu'. Bydd hyn yn sicrhau dull cyffredin at addysgu a dysgu sgiliau pan fydd disgyblion yn trosglwyddo i'r naill neu'r llall o'n dau ddarparydd uwchradd.
- 6.4 Yn ogystal ag agwedd gadarn ar gyfer asesu a dysgu, yn cynnwys safoni mewnol a chlwstwr, bydd mabwysiadu'r cynllun Siarter Iaith o fis Medi 2016 yn cefnogi ysgolion wrth wella hyder a gallu disgyblion mewn defnyddio'r Gymraeg y tu mewn a hefyd tu allan i'r ystafell ddosbarth. Bydd pob ysgol gynradd yn anelu i gyflawni safon aur y Siarter erbyn mis Gorffennaf 2019.
- 6.5 Yn y dyfodol bydd sicrhau dilyniant i ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Gwynllyw ac Ysgol Gwent Is Coed drwy CA4 i CA5 yn hollbwysig i sicrhau fod nifer uchel o fyfyrwyr o Sir Fynwy yn symud ymlaen i CA5.

- 6.6 Mae Urdd Gobaith Cymru yn cynnig cyfle i fyfyrwyr gymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn amgylchedd anffurfiol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gall myfyrwyr gymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, tripliau preswyl, clybiau amser cinio, sesiynau sgwrsio anffurfiol a mwy. Mae'r cyfleoedd hyn ar gael i holl ysgolion Cymraeg a Saesneg Sir Fynwy.
- 6.7 Mae perfformiad mewn Cymraeg Ail Iaith ar CA2 a CA3 yn gryf gyda pherfformiad yn sylweddol uwch na darpariaeth Cymru ar CA3 a 4 a chaiff y galw am TGAU ei fonitro gan roi adroddiadau blynyddol i Gynghorwyr Her a'r Awdurdod Lleol.
- 6.8 Caiff pob ysgol uwchradd eu hannog i roi amser digonol ar gyfer astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn unol â'r TGAU Cymraeg newydd a ddysgir o fis Medi 2017. Bydd hyn yn cefnogi ysgolion i gyflawni gofynion y cwricwlwm newydd i sicrhau cymhwysedd trafodol ar ddiwedd CA4 ar gyfer pob disgybl ym mhob agwedd o fywyd ysgol.
- 6.9 O 2018 ymlaen, Cymraeg Cwrs Llawn fydd yr unig TGAU a gynigir yn dilyn dileu Cymraeg Cwrs Byr. Bydd hyn yn rhoi sail fwy cadarn ar gyfer dilyniant i Safon UG a Safon Uwch. Fodd bynnag, bydd statws presennol heb fod yn greiddiol y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn parhau hyd 2021. Mae'n rhaid i ddisgyblion astudio Cymraeg i 16 oed ond nid oes unrhyw ofyniad arnynt i sefyll arholiad allanol yn y Gymraeg. Bydd hyn yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i dwf astudio Cymraeg Ail Iaith i Safon Uwch, yn arbennig mewn sir sydd ar y gororau.
- 6.10 Mae gan Goleg Gwent gyrsiau Cymraeg Ail Iaith yng Nghampysau Hafan Dysgu Crosskeys a Blaenau Gwent. Cynigir cyrsiau Cymraeg i ddysgwyr ar raglenni dwyieithog blaenoriaeth e.e. cyrsiau gofal plant drwy Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gwent. Mae'r Coleg wedi gosod targed i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cwblhau cyrsiau Cymraeg ychwanegol gan 10% bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf. Mae'r holl ddysgwyr yn cwblhau unedau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chânt eu hannog i werthuso manteision dwyieithrwydd yn y gweithle. Mae gan y Coleg Glwb Cymraeg llwyddiannus sy'n rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan mewn digwyddiadau anffurfiol e.e. tripliau, gweithgareddau awyr agored (yr Urdd). Mae'r Coleg wedi gosod targed ar gyfer cynyddu'r cyfranogiad mewn digwyddiadau'r Clwb Cymraeg gan 10% bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf. Mae gan y Coleg berthynas waith dda iawn gyda'r Fenter Iaith, ynghyd â nifer fawr o weithgareddau a drefnir mewn cysylltiad â'r Urdd.
- 6.11 Bydd Sir Fynwy yn parhau i weithio gyda phartneriaid ehangach megis Urdd Gobaith Cymru i gynnig cyfle i ddisgyblion a phobl ifanc gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn amgylchedd anffurfiol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Byddai hyn yn cynnwys Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, teithiau preswyl, clybiau amser cinio, sesiynau sgwrsio anffurfiol a byddai ar gael i'r holl ysgolion Cymraeg a Saesneg yn Sir Fynwy.

- 6.12 Bydd angen i ni ystyried a chynllunio ar gyfer y newidiadau posibl y disgwyliwn eu gweld yn dilyn dileu'r doll ar bontydd Hafren ac ymestyn y Fargen Ddinesig, yn neilltuol yn ne'r sir. Gallai datblygiadau yn y dyfodol arwain at lefelau llawer uwch o fewnfuddsoddiad gan gwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol gydag angen i sicrhau gweithlu lleol gyda sgiliau addas a'r gallu i gynnal busnes yn y Gymraeg. Mae'r Awdurdod Lleol wedi dechrau dynodi newidiadau tebygol yn y farchnad lafur a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi galw yn y dyfodol. Caiff yr wybodaeth hon ei rhannu gydag ysgolion a rhanddeiliaid allweddol fel y gallant ddechrau deall yr angen am newid a dod yn bartneriaid allweddol mewn cynllunio gweithlu a datblygu sgiliau.

7. Deilliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Caiff targedau eu halinio gyda'r deilliannau o'r adolygiad rhanbarthol o ddarpariaeth	Yn cael ei ddatblygu	Yn cael ei ddatblygu	Yn cael ei ddatblygu

- 7.1 Ein hamcanion ar gyfer cyflawni'r deilliant hwn yw:

- Sicrhau fod gennym y capasiti i gyflwyno ein holl hyfforddiant Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer staff ysgolion drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn mis Medi 2018.
- Datblygu rhestr broffesiynol o ymarferwyr a all gyflwyno ystod o ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn mis Ebrill 2017.
- Ffurfioli trefniadau comisiynu ar draws y rhanbarth ar gyfer asesiad Anghenion Dysgu Ychwanegol, cefnogaeth arbenigol a chefnogaeth maes cyfrwng Cymraeg erbyn mis Medi 2017.
- Darparu'r holl adnoddau a rhaglenni Adnoddau Dysgu Ychwanegol i gefnogi dysgu dwyieithog erbyn mis Medi 2018.

- 7.2 Dengys ein hasesiad diweddaraf o ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg, haf 2017, fod bron yr holl ddisgyblion cynradd sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (22/22) sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hanghenion wedi'u diwallu o fewn gosodiadau prif ffrwd. Lle'n briodol, mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cyllid ychwanegol i'r ysgol i gefnogi disgyblion unigol. Mae pob ysgol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac mae ganddynt y capasiti i ddiwallu anghenion disgyblion corfforol anabl. Mae'r ddwy ysgol yn mynychu hyfforddiant ADY ac yn gweithio'n effeithlon gyda'r Awdurdod Lleol i ddatblygu sgiliau i ddiwallu ystod o anghenion ychwanegol.

- 7.3 Hyd yn ddiweddar, mae'r holl ddisgyblion oedran uwchradd sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (15/15) yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Gyfun Gwynllyw. Ers mis Medi 2016, mae'r disgyblion hyn hefyd yn cael dewis mynd i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed. Mae'r awdurdod lleol yn darparu cyllid ychwanegol i'r ysgol i gefnogi disgyblion unigol lle bo hynny'n briodol. Mae'r awdurdod lleol yn cyfarfod yn rheolaidd â'r ysgol i adolygu cynnydd a lefel a natur y cymorth sydd ei angen i ddiwallu anghenion parhaus. Mae arbenigedd ar draws ystod o arbenigwyr drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ar draws y rhanbarth pe bai angen. Nid oes un disgybl o Sir Fynwy yn defnyddio darpariaeth arbenigol annibynnol ar hyn o bryd.
- 7.4 Mae gan yr holl ddisgyblion fynediad i gyngor a chefnogaeth Anawsterau Dysgu Penodol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae trefniadau is-ranbarthol i ddarparu cefnogaeth arbenigol arall, fel Seicoleg Addysgol, fel bo angen. Rydym bob amser yn hysbysebu swyddi o fewn yr Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol fel bod â'r Gymraeg yn sgil ddymunol i adeiladu capasiti Cymraeg y tîm.
- 7.5 Mae'r ystod adnoddau ac asesiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd ar gael yn y Gymraeg yn gyfyngedig. Rydym wedi dechrau datblygu adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd yn Gymraeg gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth.
- 7.6 Mae holl wybodaeth ysgrifenedig ADY ar gyfer rhieni yn ddwyieithog a chaiff hyfforddiant Anghenion Dysgu Penodol ei gyflwyno'n ddwyieithog i staff ysgol. Bwriadwn ddarparu ein holl hyfforddiant Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ddwyieithog erbyn mis Medi 2018.
- 7.7 Mae is-grŵp Anghenion Dysgu Ychwanegol Consortiwm De Ddwyrain Cymru yn cydweithio ar draws y rhanbarth i edrych ar a gwella darpariaeth ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a hefyd ysgolion cyfrwng Saesneg. Fel rhan o'u cynllun gwaith, mae'r is-grŵp yn y broses o archwilio'r ddarpariaeth bresennol ar draws y rhanbarth a chaiff meysydd allweddol o'r archwiliad hwn eu cynnwys yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- 7.8 Mae Sir Fynwy yn darparu cefnogaeth allgymorth i wella capasiti ysgolion i gefnogi disgyblion gydag ymddygiad heriol. Ni allwn gyflwyno'r ddarpariaeth hon drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y rhanbarth i asesu lefel angen yn y maes ac ymchwilio trefniadau cydweithio fel sydd angen.

8. Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.

Sefyllfa gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Nid oes data ar gael ar hyn o bryd	(Gwirioneddol) Roedd 1 aelod o staff wedi cymryd rhan yng Nghynllun Sabothol Llywodraeth Cymru Mynychodd 153 ymarferwyr Cymraeg ail iaith sesiwn hyfforddi yn y flwyddyn academaidd 2017/18	(Gwirioneddol) 4 aelod o staff (Mae un aelod o staff ar gyfer pob clwstwr yn cymryd rhan yng Nghynllun Sabothol Llywodraeth Cymru – Menter Cymraeg mewn Blwyddyn) (Gwirioneddol) Mae dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi cyflawni Gwobr Arian y Siarter (Gwirioneddol) Mae 11 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi cyflawni Gwobr Efydd y Siarter	4 aelod o staff (Mae un aelod o staff ar gyfer pob clwstwr yn cymryd rhan yng Nghynllun Sabothol Llywodraeth Cymru – Menter Cymraeg mewn Blwyddyn) Mae dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi cyflawni Gwobr Aur y Siarter Mae 11 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi cyflawni Gwobr Arian y Siarter Mae 25 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi cyflawni Gwobr Efydd y Siarter

8.1 Ein hamcanion ar gyfer cyflawni'r deilliant hwn yw:

- Cyflwyno archwiliad blynyddol o sgiliau Cymraeg ymarferwyr (athrawon a chymhorthwyr addysgu) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg a Chylchoedd Meithrin i asesu capasiti a dynodi anghenion hyfforddiant y dyfodol erbyn Chwefror 2018.
- Cytuno a gweithredu cynllun strategol tair blynedd, mewn cysylltiad gydag ysgolion a chlystyrau, ar gyfer rhyddhau staff i gymryd rhan yn hyfforddiant cynllun Sabothol Llywodraeth Cymru erbyn mis Medi

2017. Nod hyn yw cynyddu sgiliau yn y Gymraeg a chynyddu'r nifer o athrawon a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a ddynodwyd i roi blaenoriaeth i ddefnydd Grant Gwella Addysg i wella sgiliau ieithyddol ymarferwyr, drwy weithio gyda Swyddogion Cymraeg mewn Addysg mewn ysgolion a gosodiadau cyfrwng Saesneg erbyn Ebrill 2017.
- Mynd ati'n systematig i feithrin gallu pob ysgol i wella sgiliau methodolegol ymarferwyr mewn partneriaeth gyda swyddogion Cymraeg mewn Addysg a thrwy gynlluniau pwrpasol ysgol-i-ysgol yn dechrau ym mis Medi 2018.

- 8.2 Bydd yn hanfodol gwella sgiliau iaith staff, yn arbennig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, wrth weithredu gweledigaeth 'Dyfodol Llwyddiannus' Llywodraeth Cymru a symud ymlaen gydag agenda Miliwn o Siaradwyr 2015. Gwyddom fod y galw presennol o fewn y sir ac ar draws rhanbarth y De Ddwyrain ar gyfer hyfforddiant Cynllun Sabothol Llywodraeth Cymru yn isel mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Bydd angen i'r awdurdod weithio gyda'i ysgolion i ddynodi ein hanghenion hyfforddiant Cymraeg a chynllunio'n strategol i'w trin drwy raglen systematig. Gall hyn gynnwys cynllun i ryddhau staff i fynychu hyfforddiant Cynllun Sabothol Llywodraeth Cymru, gwaith ysgol i ysgol, rhaglenni pwrpasol a ddarperir gan y GCA neu gyfuniad.
- 8.3 Mae gan ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg fynediad i raglen eang ac amrywiol o ddatblygiad proffesiynol parhaus drwy raglen y GCA o hyfforddiant iaith a methodoleg. Mae hefyd raglen o ymyriad wedi'i dargedu yn ei le ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a ddynodwyd i wella ethos Cymraeg ysgolion ac iaith/methodoleg ymarferwyr ar draws y sir.
- 8.4 Mae cydweithio iach rhwng ein hysgolion cyfrwng Cymraeg o fewn yr Awdurdod Lleol ac ar draws y rhanbarth. Mae rhaglen gynyddol o raglenni llythrennedd datblygiad proffesiynol parhaus cyfrwng Cymraeg ar gael i ysgolion cyfrwng Cymraeg gan y GCA. Mae hyn yn cynnwys rhaglen o ysgolion arweiniol cyfrwng Cymraeg yn rhannu arfer da o fewn rhaglen ar y cyd a drefnwyd yn ganolog o gefnogaeth ymgynghori a seiliedig mewn ysgol. Mae rhaglen ranbarthol ysgol-i-ysgol Anelu at Ragoriaeth yn ei lle i gefnogi athrawon wrth anelu am ragoriaeth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- 8.5 Mae gan y ddwy ysgol yn Sir Fynwy fynediad i raglenni arweinyddiaeth y GCA (Paratoi i fod yn Bennaeth, CPCP a HT B1 a B5). Mae cefnogaeth ar gyfer arweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg drwy raglenni partneriaeth cyfoedion ranbarthol gyda hwyluso secondiadau ranbarthol lle'n briodol.
- 8.6 Er nad oes gennym ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg o fewn y sir, yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth gref gydag ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg y rhanbarth i drafod darpariaeth cyrsiau addas ar gyfer ein disgyblion a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 8.7 Mae gan Goleg Gwent raglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer yr holl staff addysgu i ddatblygu eu sgiliau yn ymwreiddio'r dimensiwn Cymreig. Mewn cysylltiad gyda Sgiliaith, mae'r Coleg yn cynnig hyfforddiant i reolwyr mewn

sefydlu Cymraeg yn y cwricwlwm ynghyd â help ymarferol ar gyfer staff addysgu i gefnogi ac annog dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg. Mae gan tua 6% o staff academiaidd Coleg Gwent sgiliau yn y Gymraeg ar hyn o bryd a chaiff y staff hyn eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio'r sgiliau gyda'u myfyrwyr. Caiff y cyrsiau Cymraeg i Oedolion eu cynnig yn rhad ac am ddim ac yn ystod oriau gwaith ar gyfer holl staff Coleg Gwent ar hyn o bryd. Mae 31 o staff wedi ymrestru a chysiau a ddechreuodd ym mis Medi 2016.

- 8.8 Mae'r Coleg wedi cymeradwyo polisi recriwtio newydd yn ddiweddar gyda'r nod o gynyddu nifer y staff addysgu a all gyflwyno'n ddwyieithog gan 10% bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf. O fis Medi 2016, bydd swyddi a ddaw o fewn Meysydd Blaenoriaeth Dwyieithog Llywodraeth Cymru e.e. gofal plant yn rhai lle bydd y Gymraeg yn hanfodol neu ymrwymiad i ddysgu Cymraeg i lefel ganolradd o fewn 2 flynedd. Bydd hyn yn cefnogi'r awdurdod i ehangu gofal plant cyfrwng Cymraeg ac addysg gynnar ar draws y sir.

Atodiad 1

Rhestr Ymgynghori Statudol

Mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgynghori gyda'r dilynol ar y Cynllun ar ffurf drafft a bydd y cyfnod ymgynghori yn parhau am 8 wythnos.

Mae'r amserlenni ar gyfer y broses ymgynghori a chyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn yn Atodiad 5.

Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013:

- awdurdodau lleol cyfagos
- pennaeth pob ysgol a gynhelir ganddo
- corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo
- pob sefydliad o fewn y sector addysg uwch yn ei ardal
- yng nghyswllt unrhyw ysgol sylfaen neu wirfoddol yn ei ardal -
- y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sylfaen
- y corff crefyddol perthnasol, os oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol

"Personau eraill a ragnodir" fel y'u rhestrir yn Rheoliad 9:

- Comisiynydd y Gymraeg
- Partneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- cynghorau ysgol
- Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru
- Fforwm Cyfrwng Cymraeg lleol
- Yr Urdd
- Menter Iaith
- Sefydliadau eraill o'r fath sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc fel yr awdurdod lleol

Atodiad 2

Amserlen a fframwaith ar gyfer Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020

2016	
19 Hydref	Awdurdodau lleol i lansio ymgynghoriad wyth wythnos
Canol Tachwedd	Llywodraeth Cymru i anfon data Mudiad Meithrin at awdurdodau lleol
14 Rhagfyr	Diwedd y cyfnod ymgynghori
20 Rhagfyr	Awdurdodau lleol yn cyflwyno eu Cynlluniau Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru
2017	
31 Ionawr	Llywodraeth Cymru i hysbysu awdurdodau lleol am benderfyniad y Gweinidog
14 Chwefror	Dyddiad cau cyflwyno diwygiadau gan yr awdurdodau lleol
28 Chwefror	Llywodraeth Cymru i gymeradwyo'r Cynlluniau Strategaeth Cymraeg mewn Addysg a ddiwygiwyd
1 Ebrill	Awdurdodau lleol i ddechrau gweithredu'r Cynlluniau Strategaeth Cymraeg mewn Addysg
1 Mehefin	Awdurdodau lleol i gyhoeddi'r Cynlluniau Strategaeth Cymraeg mewn Addysg
27 Hydref	Awdurdodau lleol i lansio ymgynghoriad chwe wythnos
15 Rhagfyr	Diwedd y cyfnod ymgynghori

Atodiad 3

Deiliant 1 - Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Y canran o blant saith oed a gaiff eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yw 6% (54 disgybl)	5.5% (55 disgybl)	6.8% (61 disgybl)	6.8% (60 disgybl)
	Gwirioneddol (CYBLD Ionawr 18): 5.6% (50 disgybl)	Disgwyliedig (rhifau cyfredol) 5.6% (52 disgybl)	Disgwyliedig (rhifau cyfredol blwyddyn 1) 5.3% (47 disgybl)

Deiliant 2 - Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Cynyddu'r canran o ddisgyblion 14-16 oed sy'n astudio am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Sefyllfa Bresennol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Canran cyfredol dysgwyr yn sir Fynwy ym Mlwyddyn 9 a gaiff eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf) yw (4.5%) 37 disgybl	100% (27 disgybl)	100% (36 disgybl)	100% (38 disgybl)
Cymhariaeth gyda'r canran o ddysgwyr ym Mlwyddyn 6 a gafodd eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf) dair blynedd ynghynt yw 4.6% (42 disgybl)	95.1% (35/41 disgybl)	100% (41/41 disgybl)	100% (38/38 disgybl)

Deiliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r holl fyfyrwyr sy'n mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw yn astudio o leiaf bump neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â Cymraeg (Iaith Gyntaf). Yn ogystal â Cymraeg/Llenyddiaeth Gymraeg, caiff 100% o ddisgyblion Blwyddyn 11 Sir Fynwy sy'n mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw eu cyflwyno am ddwy TGAU mathemateg, dwy TGAU gwyddoniaeth, tair TGAU opsiynol a Bac Cymru a astudir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Canran myfyrwyr Sir Fynwy sy'n mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw ar hyn o bryd sy'n astudio pump neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yw 100%	100%	100%	100%

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae holl fyfyrwyr Sir Fynwy (100%) sy'n cael addysg ôl-16 yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yn astudio dau neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Canran myfyrwyr Sir Fynwy sy'n cael addysg Ôl-16 yn Ysgol Gyfun Gwynllyw sy'n astudio dau neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yw 100%	100%	100%	100%
Canran myfyrwyr Sir Fynwy sy'n cael addysg Ôl 16 yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed sy'n astudio dau neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg o 2022/23 fydd 100% .	100%	100%	100%

Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymreg

Gwella darpariaeth a safonau mewn Cymraeg Iaith Gyntaf

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Canran y dysgwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd pob cyfnod allweddol yn Sir Fynwy yw:	Gwir	Bellach mae'n ddisgwyliad	Llywodraeth Cymru y dylai targedau ysgol ond eu defnyddio i gefnogi hunanwerthuso a dylai ni chaniateir cyfuno hyd at awdurdod lleol neu ranbarthol Mesur perfformiad
Cyfnod Sylfaen Deilliant 5+ 98.1%	93.8%		
Cyfnod Allweddol 2 Lefel 4+ 86.8%	94%		
Cyfnod Allweddol 3 Lefel 5+ DdG	DdG		
Cyfnod Allweddol 4 A* - C DdG	DdG		
Canran y dysgwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Saesneg a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd pob cyfnod allweddol yn Sir Fynwy yw:			
Cyfnod Allweddol 2 Lefel 4+ 88.4%	96.1%		
Cyfnod Allweddol 3 Lefel 5+ 88.7%	93%		
Cyfnod Allweddol 4 A* - C Cwrs Llawn 48%	63%		
Cyfnod Allweddol 4 A- C Cwrs Byr			
Canran myfyrwyr Sir Fynwy mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n astudio TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn yn 2016 yw: 49.6%	76% Gwir - 52.2%	85%*	94%*
Canran myfyrwyr Sir Fynwy mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n astudio Cyfnod Allweddol 5 UG Cymraeg Ail Iaith yn 2016 yw: 3.7%	5% Gwir - 6.75%	7%*	15%*
Canran myfyrwyr Sir Fynwy mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n astudio Cyfnod Allweddol 5 Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith yn 2015 yw: 6.9%	3.5% Gwir - 8.3%	4%*	10%*

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Dim data ar hyn o bryd	Yn cael ei ddatblygu	Yn cael ei ddatblygu	Yn cael ei ddatblygu

Deilliant 7: Cynllunio'r Gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Dim data ar hyn o bryd	(Gwirioneddol) Roedd 1 aelod o staff wedi cymryd rhan yng Nghynllun Sabothol Llywodraeth Cymru Mynychodd 153 ymarferwyr Cymraeg ail iaith sesiwn hyfforddi yn y flwyddyn academaidd 2017/18	(Gwirioneddol) 4 aelod o staff (Mae un aelod o staff ar gyfer pob clwstwr yn cymryd rhan yng Nghynllun Sabothol Llywodraeth Cymru – Menter Cymraeg mewn Blwyddyn) (Gwirioneddol) Mae dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi cyflawni Gwobr Arian y Siarter (Gwirioneddol) Mae 11 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi cyflawni Gwobr Efydd y Siarter	4 aelod o staff (Mae un aelod o staff ar gyfer pob clwstwr yn cymryd rhan yng Nghynllun Sabothol Llywodraeth Cymru – Menter Cymraeg mewn Blwyddyn) Mae dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi cyflawni Gwobr Aur y Siarter Mae 11 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi cyflawni Gwobr Arian y Siarter Mae 25 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi cyflawni Gwobr Efydd y Siarter

Atodiad 4

Arolwg Addysg Cyfrwng Cymraeg 2016

Crynodeb Terfynol o Arolwg Cyn-ysgol 01/09/2014 i 31/08/2015

Crynodeb

Mae Cyngor Sir Fynwy yn parhau i gysylltu gyda'i gymuned i asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau fod ystod briodol o leoedd cyfrwng Cymraeg ar gael ar gyfer y plant o fewn ei sir. Cynhaliwyd arolygon blaenorol yn 2007, 2010 a 2015.

Methodoleg

Yn arolwg 2016 fe wnaeth yr Awdurdod Lleol dargedu rhieni yn Sir Fynwy gyda babanod a anwyd rhwng 1 Medi 2014 a 31 Awst 2015. Cafwyd y data gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Ar 14 Hydref 2016, dosbarthodd Cyngor Sir Fynwy ohebiaeth at y gynulleidfa darged yn cynnwys llythyr egluro, arolwg yn cynnwys y cwestiynau statudol yn ogystal â deunydd gwybodaeth a gafwyd gan wahanol asiantaethau yn amlygu manteision addysg cyfrwng Cymraeg. Dosbarthwyd y deunydd yn Gymraeg a Saesneg, gyda fersiwn ar-lein o'r arolwg ar gael ar wefan Cyngor Sir Fynwy.

Defnyddiodd yr Awdurdod Lleol wahanol dechnegau marchnata yn cynnwys cyhoeddi'r arolwg drwy wefannau cyfryngau cymdeithasol, gwefan gwybodaeth teuluoedd ac erthyglau yn y wasg leol. Cymerodd swyddogion hefyd y dull rhagweithiol o targedu rhieni plant o fewn y garfan dargad yn ystod Eisteddfod Genedlaethol 2016 a gynhaliwyd yn y Fenni, Sir Fynwy.

Gosodwyd dydd Gwener 25 Tachwedd 2016 fel dyddiad cau ar gyfer yr arolwg, 6 wythnos ar ôl dosbarthu'r ohebiaeth. Cafodd y dyddiad cau ei ymestyn gan wythnos oherwydd cyfnod byr o anawsterau technegol (2 ddiwrnod) gyda'r arolwg ar-lein.

Ymatebion

Cyfanswm nifer yr arolygon a anfonwyd	809
Cyfanswm nifer yr arolygon a ddychwelwyd	92
Cyfradd ymateb	11.3%

Rhaniad daearyddol ymatebion

Ardal	Nifer ymatebion	%
Gogledd	48	52.1
De	31	33.7
Canolog	9	9.7
Tu allan i'r sir	4	4.3

1. Ydych chi'n deulu sy'n siarad Cymraeg?

Ymateb	Nifer ymatebion	%
Ydym	12	13
Na	80	87

O'r rhai a ymatebodd eu bod yn siarad Cymraeg, roedd 9 allan o'r 12 yn byw yn ardal y Fenni (Gogledd Sir Fynwy) gydag 1 yn byw ym Mrynbuga (canol Sir Fynwy) ac un arall yn byw tu allan i Sir Fynwy.

2. Ydych chi'n teimlo y byddai eich plentyn yn cael budd o addysg cyfrwng Cymraeg?

Ymateb	Nifer ymatebion	%
Byddai	46	50
Na	32	34.7
Dim yn siŵr	14	15.3

Teimlai 46 teulu (50% o'r rhai a ymatebodd) y byddai eu plant yn cael budd o addysg cyfrwng Cymraeg

- Mae 29 teulu (63% o'r rhai a ymatebodd yn gadarnhaol) yn byw yng ngogledd Sir Fynwy, gyda 24 o deuluoedd (83%) yn byw yn y Fenni a 5 o deuluoedd (17%) yn byw yn Nhrefynwy.
- Teimlai 10 teulu (21.7% o'r rhai a ymatebodd yn gadarnhaol) o dde'r Sir y byddai eu plant yn cael budd o addysg cyfrwng Cymraeg.
- Teimlai 4 teulu (8.7% o'r rhai a ymatebodd yn gadarnhaol) yn byw o fewn canol Sir Fynwy (Brynbuga) y byddai eu plant yn cael budd o addysg cyfrwng Cymraeg.

3. Beth yw'r tebygrwydd y byddech yn anfon eich plentyn i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg os yw wedi ei lleoli fwy na 2 filltir o gyfeiriad eich cartref?

Dewis	Cyfanswm Ymatebion	Canran	Gogledd	De	Canol	Allan o'r Sir
Tebygol iawn	20	21.7%	9	5	3	3
Eithaf tebygol	7	7.6%	6	0	1	0
Tebygol	10	10.8%	6	4	0	0
Eithaf annhebygol	8	8.7%	6	2	0	0
Annhebygol	18	19.5%	11	6	1	
Annhebygol iawn	29	31.5%	10	14	4	1
Cyfanswm	92	100	48	31	9	4

O'r tabl uchod, gwelir y byddai 55 o'r teuluoedd a ymatebodd (59.7%) yn annhebygol o anfon eu plentyn i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg os oedd wedi'i lleoli fwy na 2 filltir o gyfeiriad y cartref.

Byddai'r 37 teulu arall (40.3%) a ymatebodd o leiaf yn debygol i anfon eu plentyn i ysgol gynradd cyfrwng Cymreg hyd yn oed os oedd yr ysgol agosaf fwy na 2 filltir o gyfeiriad y cartref.

4. Beth yw'r tebygrwydd y byddech yn anfon eich plentyn i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg os yw wedi'i lleoli o fewn 2 filltir o gyfeiriad eich cartref?

Dewis	Cyfanswm Ymatebion	Canran	Gogledd	De	Canolog	Allan o'r Sir
Tebygol iawn	37	40.2%	22	8	4	3
Eithaf tebygol	5	5.4%	5	0	0	0
Tebygol	11	11.9%	6	4	1	0
Eithaf annhebygol	7	7.6%	5	2	0	0
Annhebygol	12	13%	3	8	1	0
Annhebygol iawn	20	21.7%	7	9	3	1
Cyfanswm	92	100	48	31	9	4

Mae'n amlwg fod pellter o'r cyfeiriad cartref i'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn ffactor allweddol, gyda 53 o'r teuluoedd a ymatebodd (57.6%) yn awr o leiaf yn eithaf tebygol o anfon eu plentyn i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg pe byddai o fewn 2 filltir o gyfeiriad eu cartref. Mae hyn yn gynydd o 17.3% ar y rhai fydd fwyaf tebygol o anfon eu plentyn i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg pe byddai wedi ei lleoli fwy na 5 filltir o gyfeiriad y cartref.

Ar gyfer y rhai sy'n byw yng nghanol sir Fynwy, byddai'n ymddangos mai ychydig iawn o effaith sydd ar bellter yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i'w cyfeiriad cartref i'r tebygrwydd y byddant yn dewis ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Roedd 5 teulu o leiaf yn debygol o anfon eu plentyn i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg os oedd o fewn 2 filltir o gymharu gyda 4 teulu os oedd yn fwy na 2 filltir.

Fodd bynnag, ymddengys fod pellter yn ffactor sylweddol ar gyfer y rhai sy'n byw yng ngogledd y sir. Byddai 33 teulu a ymatebodd o ogledd y sir y byddent o le iaf yn eithaf tebygol o anfon eu plentyn i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg os oedd o fewn 2 filltir o gyfeiriad eu cartref, gyda dim ond 21 teulu o leiaf yn debygol os oedd yn fwy na 2 filltir. Mae hyn yn wahaniaeth o 36.3%. Ymddengys fod y gwahaniaeth sylweddol yn cyfeirio at 11 teulu a ymatebodd o ardal Trefynwy a fyddai o blaid anfon eu plentyn i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg os oedd o fewn 2 filltir i'w cartref, gyda dim ond 4 teulu o Drefynwy o blaid os byddai'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg fwy na 2 filltir i ffwrdd.

5. Beth ydych chi'n feddwl sy'n amser taith derbyniol i ysgol cyfrwng Cymraeg?

Dewis	Cyfanswm Ymatebion	Canran	Gogledd	De	Canol	Allan o'r Sir
Llai na 10 munud	24	27.1%	15	5	2	2
10 i 20 munud	41	44.5%	21	15	4	1
20 i 30 munud	14	15.2%	9	5	0	0
30 i 45 munud	7	7.6%	1	2	3	1
45 i 60 munud	2	2.2%	0	2	0	0
Dros 60 munud	4	4.3%	2	2	0	0
Cyfanswm	92	100	48	31	9	4

Mae 44.5% o deuluoedd a ymatebodd i'r arolwg yn ystyried fod amser taith o 10 i 20 munud i ysgol cyfrwng Cymraeg yn amser taith derbyniol. Dim ond 14.1% o'r teuluoedd a ymatebodd a deimlai fod amser taith o fwy na 30 munud yn amser teithio derbyniol ar gyfer eu plentyn.

6. **Fyddech chi'n fwy tebygol o ddewis ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg pe bai yna ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg o fewn amser taith derbyniol i chi?**

Ymateb	Nifer ymatebion	%
Byddwn	49	53.2
Na	29	31.5
Dim yn siŵr	14	15.2

Gwelir o'r uchod fod 53.2% o'r teuluoedd a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo fod y pellter i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn cael effaith ar eu penderfyniad ar p'un ai i anfon eu plentyn i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Teimlai 53.2% o deuluoedd y byddent yn fwy tebygol o ddewis ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg pe byddai'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg o fewn amser taith derbyniol.

Atodiad 5

Cynllun Gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Fynwy 2017 - 2020

Deiliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Canran y plant saith mlwydd oed ar hyn o bryd sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yw 5.6% sef 50 disgybl, yn seiliedig ar CYBLD Ionawr 18	5.5% (55 disgybl) Gwirioneddol (CYBLD Ionawr 18): 5.6% (50 disgybl)	6.8% (61 disgybl) Disgwyliedig (rhifau cyfredol) 5.6% (52 disgybl)	6.8% (60 disgybl) Disgwyliedig (rhifau cyfredol blwyddyn 1) 5.3% (47 disgybl)

Gweithred	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Terfyn	Yn Arwain	Diweddariad	Effaith
1. Cynnal arolwg cyfrwng Cymraeg blynyddol gyda'r rhieni (rhanbarthol)	11/18	01/2019	Mynediad MJ		• Danfonwyd arolwg allan 19/11/18
2. Cynnal arolwg cyfrwng Cymraeg â rhieni mewn ardaloedd a dargedwyd (Lleol)	02/19	04/2019	Mynediad MJ		• Y bwriad yw i ddanfôn ym mis Ionawr 2019
3. Gwella gwybodaeth i rieni ar fanteision addysg cyfrwng Cymraeg (Llyfryn Dechrau Ysgol / gwefan Cyngor Sir Fynwy)	09/2019	09/2020	Mynediad		• Mae'r broses ymgeisio yn agor ar hyn o bryd a gwybodaeth wedi bod cyfrannau fel rhan o'r broses
4. Cynyddu marchnata a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg (MonFis/ gwefan Cyngor Sir Fynwy)	11/2018	09/2020	Mynediad DM		• Dosbarthwyd deunydd hyrwyddo fel rhan o'r arolwg Cyfrwng Cymraeg a'u lanlwytho i'r wefan
5. Cynyddu nifer y lleoedd gofal plant dwyieithog (Cynnig Gofal Plant)	09/2019	09/2020	Blynyddoedd Cynnar SH		• Sefydlwyd ur is-grŵp – ond eto i gwrdd
6. Cynyddu nifer y lleoliadau meithrinfeydd addysg cyfrwng Cymraeg (Grant Band B a LIC)	09/2019	09/2020	Blynyddoedd Cynnar SH		• Cyflwynwyd y cynnig gofal plant ac yn aros am gadarnhad terfynol
7. Cynyddu capasiti ar gyfer addysg gynradd cyfrwng Cymraeg ar draws y Sir (Band B)	09/2020	09/2021	Eiddo PK		• Cyflwynwyd y cynnig gofal plant ac yn aros am gadarnhad terfynol
8. Cynyddu nifer y plant saith mlwydd oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	09/2018	09/2020	DMT/ MJ		• Mae capasiti ar gyfer darpariaeth feithrin yn Y Fenni wedi cynyddu o Ionawr 2019.
Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	09/2017	09/2020	Fforwm Addysg Gymraeg		Bydd y camau uchod yn cynyddu nifer y disgyblion i addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer dosbarthiadau derbyn 2019. O ganlyniad, bydd cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn Medi 2021.

Deiliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Y canran presennol o ddysgwyr ym Mlwyddyn 9 a gaiff eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) yw 4.5% (37 disgybl)	100% (27 disgybl)	100% (36 disgybl)	100% (38 disgybl)
Cymhariaeth Blwyddyn 6 gyda'r canran o ddysgwyr a gaiff eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) dair blynedd yn gynharach yw 4.6% (42 disgybl)	85.6% (36/42 disgybl)	100% (43/43 disgybl)	100% (38/38 disgybl)

Gweithred	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Terfyn	Yn Arwain	Diweddariad	Effaith
1. Cynyddu'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ne'r Sir	09/2019	Ar fynd	Plant a Phobl Ifanc		• Deunydd hyrwyddo wedi'u dosbarthu fel rhan o'r arolwg cyfrwng Cymraeg a'u lanlwytho i'r wefan
2. Datblygu egin-ysgol cyfrwng Cymraeg yn ardal Trefynwy	09/2020	09/2026	Plant a Phobl Ifanc		• Cytunwyd y cyllid mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru
3. Sefydlu darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant dwyieithog yn Y Ffin ac yn ardal Trefynwy	09/2019	09/2020	Plant a Phobl Ifanc		• Cyflwynwyd y cynnig gofal plant a nawr yn aros am gadarnhad terfynol
4. Ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i gynyddu cyfleoedd pontio ymhellach o leoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion uwchradd ar gyfer disgyblion ym mlynnyddoedd 5 a 6	09/2018	Ar fynd	Ysgolion		• Ysgolion i adrodd ar gynnydd mewn perthynas â gweithredu hwn ym mis Chwefror 2019 • Gwybodaeth i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg i'w hanfon

					gyda'r arolygon cyfrwng Cymraeg ac wedi'u cynnwys yn y cais rhieni ar adran derbyn ysgol gwefan Cyngor Sir Fynwy. Mae hyn yn sicrhau mynediad i bob rhiant a lleoliadau.
5. Datblygu, gyda phartneriaid rhanbarthol, darpariaeth addas ar gyfer disgyblion sy'n ymuno ag addysg cyfrwng Cymraeg yn CA2 a 3.	01/2019	09/2021	Fforwm Iaith Rhanbarthol		<ul style="list-style-type: none"> Cam gweithredu yw hwn i fynd i'r afael ag ef yn rhanbarthol. Ni wnaed unrhyw gynnydd pellach hyd yma.
6. Adolygu'r polisi trafndiaeth ysgol	01/2019	09/2020	UCT/ RC Mynediad MJ		<ul style="list-style-type: none"> UCT i gwrdd â Phenathiaid ym mis Ionawr i drafod materion sy'n codi o'r polisi presennol. UCT i gwrdd â rhiant-aelodau o'r Fforwm Iaith Gymraeg ym mis Mawrth/Ebrill i rannu atebion ar gyfer gwella gwasanaeth ar gyfer 2019/20.
Bydd mwy o ddysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd	09/2018	09/2026	Fforwm Addysg Gymraeg		

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Mae'r holl ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg (100%) yn mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw neu Ysgol Gyfun Gwent Is-coed	100%	100%	100%

Gweithred	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Terfyn	Yn Arwain	Diweddariad	Effaith
1. Cydymffurfio gyda'r Mesur Dysgu a Sgiliau 2009	09/2017	09/2020	Ysgolion/SRS		<ul style="list-style-type: none"> Cyngor Sir Fynwy i ysgrifennu at gynghorau Casnewydd a Thorfaen ym mis Rhagfyr i gadarnhau bod y ddwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg y mae disgyblion Sir Fynwy yn mynychu yn cydymffurfio â'r Mesur Dysgu a Sgiliau.
2. Sicrhau darpariaeth uwchradd cynaliadwy ar gyfer pob disgybl Sir Fynwy sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg	09/2018	09/2020	Plant a Phobl Ifanc		<ul style="list-style-type: none"> Rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif ar gyfer Cyngor Sir Fynwy. Yn dilyn adborth gan y Fforwm Addysg Gymraeg y mae wedi'i ddiwygio er mwyn ailystyried darpariaeth uwchradd. Mae'r waith hwn yn parhau ar hyn o bryd.
Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.	09/2017	09/2020	Fforwm Addysg Gymraeg		

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Mae'r holl ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg (100%) yn mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw neu Ysgol Gyfun Gwent Is-coed	100%	100%	100%

Gweithred	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Terfyn	Yn Arwain	Diweddariad	Effaith
1. Cynnal y ddarpariaeth 14-19 ar lefel gweithgareddau'r ddarpariaeth grant 14-19	09/2017	09/2020	Ysgolion / GCA/ GAR		<ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennu at Gyngor Torfaen a Choleg Gwent i gadarnhau a ydynt yn cynnal darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ôl 16 o Ionawr 2019
2. Gweithio drwy Rwydweithiau 14-19 a Fforymau Rhanbarthol 14-19 i gynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg	09/2017	09/2020	Ysgolion / GCA/ GAR		<ul style="list-style-type: none"> Parhau â'r trefniadau presennol 14-19 i rannu arfer da ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg.
Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.	09/2017	09/2020	Fforwm Addysg Gymraeg		

Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Canran y dysgwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd pob cyfnod allweddol yn Sir Fynwy yw:	Gwir		Bellach mae'n ddisgwyliad Llywodraeth Cymru y dylai targedau ysgol ond eu defnyddio i gefnogi hunanwerthuso a dylai ni chaniateir cyfuno hyd at awdurdod lleol neu ranbarthol Mesur perfformiad
Cyfnod Sylfaen Deilliant 5+	98.1%	93.8%	

Cyfnod Allweddol 2 Lefel 4+	86.8%	94%
Cyfnod Allweddol 3 Lefel 5+	DdG	DdG
Cyfnod Allweddol 4 A* - C	DdG	DdG
Canran y dysgwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Saesneg a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd pob cyfnod allweddol yn Sir Fynwy yw:		
Cyfnod Allweddol 2 Lefel 4+	88.4%	
Cyfnod Allweddol 3 Lefel 5+	88.7%	96.1%
Cyfnod Allweddol 4 A* - C Cwrs Llawn	48%	93%
Cyfnod Allweddol 4 A- C Cwrs Byr	54.8%	63%

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Canran disgyblion Sir Fynwy mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n astudio TGAU Cymraeg Ail iaith Cwrs Llawn yn 2016 yw: 49.6%	76% Gwir - 52.2%	85%*	94%*
Canran disgyblion Sir Fynwy mewn ysgolion Saesneg sy'n astudio Cyfnod Allweddol 5 UG Cymraeg Ail iaith yn 2016 yw:	5% Gwir - 6.75%	7%*	15%*
Canran disgyblion Sir Fynwy mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n astudio Cyfnod Allweddol 5 Safon Uwch Cymraeg Ail iaith yn 2016 yw: 6.1%	3.5% Gwir - 8.3%	4%*	10%*

* Mae'r targedau yn rhai dros dro ac nid ydynt yn seiliedig ar ddata ar lefel disgybl

Gweithred	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Terfyn	Yn Arwain	Diweddariad	Effaith
1. Sicrhau cyfradd uwch o drosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd CA2 i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg CA3	09/2018	09/2020	MJ/ Ysgolion		<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi'r UCT i wella trefniadau cludiant i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Cefnogi'r adolygiad polisi trafniadaeth i gefnogi mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg Cynnal arolwg rhiant gyda rhieni cyfrwng Cymraeg i benderfynu pam maent yn gwneud y dewis i adael addysg cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn 7. Defnyddio'r wybodaeth hon i lywio camau i wella ymhellach y gyfraddau trosglwyddo.
2. Annog y pedair ysgol cyfrwng Saesneg i gofrestru bron pob disgybl ar gyfer y cwrs Cymraeg llawn o 2018 pan fydd y cwrs byr yn cael ei diddymu	09/2018	09/2020	GAR/GCA		<ul style="list-style-type: none"> Yr ALI i gyfarfod â'r pedair ysgol uwchradd i drafod a chytuno ar lefelau mynediad ar gyfer y cwrs Cymraeg llawn.
3. Annog ysgolion cyfrwng Saesneg i gynyddu'r ddarpariaeth ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer Cymraeg Ail iaith yn CA3 a CA4 i gynyddu'r nifer sy'n cael y cwrs llawn TGAU	09/2018	09/2020	GAR/GCA		<ul style="list-style-type: none"> Yr ALI i gwrdd â'r pedair ysgol uwchradd i adolygu a chytuno ar ddarpariaeth ac amserlennu ar gyfer addysg Cymraeg Ail iaith yn CA3 a CA4
4. Sicrhau bod pob un o'r pedair ysgol uwchradd yn cefnogi mwy o gydweithio er mwyn cynyddu cyfanswm yr ymgeiswyr Cymraeg Ail iaith lefel AS/A fel cyfran o'r holl ymgeiswyr.	09/2017	09/2020	GAR/GCA		<ul style="list-style-type: none"> Cwrdd â'r pedair ysgol uwchradd i gytuno ar strategaeth a lle bo'n briodol, trefniadau cydweithredol i gynyddu ymgeiswyr ail iaith.
5. Parhau i wella canlyniadau mewn Cymraeg Ail iaith ar ddiwedd CA2 a CA3	09/2017	09/2020	GAR/GCA		<ul style="list-style-type: none"> Cynnal adolygiad llawn o'r rhaglen Gymraeg Ail iaith rhanbarthol yng ngwanwyn 2019 Diwygio'r rhaglen i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd o bryder ar gyfer eu cyflwyno ym Medi 2019
Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg	09/2017	09/2020	Fforwm Addysg Gymraeg		

Deiliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Caiff targedau eu halinio gyda'r deilliannau o'r adolygiad rhanbarthol o ddarpariaeth	Yn cael ei ddatblygu	Yn cael ei ddatblygu	Yn cael ei ddatblygu

Gweithred	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Terfyn	Yn Arwain	Diweddariad	Effaith
-----------	-----------------	----------------	-----------	-------------	---------

1. Darparu hyfforddiant ADY cyfrwng Cymraeg ar gyfer staff yr ysgol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn perthynas â'r Ddeddf ADY a'r cod ymarfer newydd	09/2018	09/2020	LIC ADY TP		<ul style="list-style-type: none"> Bydd yr Arweinwyr Trawsnewid ar gyfer ADY yn mynd i'r afael â hyn drwy raglen hyfforddiant anghenion dysgu ychwanegol Llywodraeth Cymru a fydd yn dechrau ym mis Ionawr 2019
2. Sicrhau bod pob disgybl ag ADY sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu ar gyfer yn addas mewn lleoliadau prif ffrwd lle y bo'n briodol	09/2018	09/2020	ADY		<ul style="list-style-type: none"> Mae gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol yn parhau i ddarparu cymorth, asesu ac arweiniad drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn gynnwys yn y broses o ddatblygu
3. Adeiladu ar y trefniadau cydweithio rhanbarthol i gefnogi disgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag ADY, gan gynnwys y rhai ag anghenion cymhleth	09/2018	09/2020	SEWC/TP		<ul style="list-style-type: none"> Mae gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol yn parhau i ddarparu cymorth, asesu ac arweiniad drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn gynnwys yn y broses o ddatblygu
4. Sicrhau bod cymaint o adnoddau ADY cyfrwng Cymraeg â phosibl ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg	09/2018	09/2020	ADY		<ul style="list-style-type: none"> Mae'r rhan fwyaf o adnoddau ar gyfer ADP ar gael yn Gymraeg a chaiff hyfforddiant ei ddarparu'n ddwyieithog yn rheolaidd. Dechreuwyd ar waith i ymestyn y ddarpariaeth hon ar draws yr ystod ADY
5. Sicrhau bod holl ddogfennau ADY newydd a diwygiedig ar gyfer defnydd mewn ysgolion a lleoliadau ar gael yn Gymraeg a Saesneg	09/2018	09/2020	ADY		<ul style="list-style-type: none"> Mae'r holl waith papur a dogfennau diwygiedig ar gyfer y Ddeddf a'r Cod Ymarfer newydd ar gael yn Gymraeg.
6. Cwblhau'r adolygiad o anghenion dysgu ychwanegol a datblygu darpariaeth ADY i gefnogi pob dysgwr	09/2018	09/2020	Plant a Phobl Ifanc		<ul style="list-style-type: none"> Mae'r adolygiad ADY yn mynd rhagddo'n unol â therfynau amser ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynigion. Lle nad yw hyn yn digwydd mae ystod o gynigion yn cael eu hailystyried cyn dechrau ar y broses wleidyddol.
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr â dysgu ychwanegol	09/2017	09/2020	Fforwm Addysg Gymraeg		

Deiliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.

Sefyllfa Gyfredol	Targed 2017/18	Targed 2018/19	Targed 2019/20
Nid oes data ar gael ar hyn o bryd	<p>(Gwirioneddol) Roedd 1 aelod o staff wedi cymryd rhan yng Nghynllun Sabothol Llywodraeth Cymru</p> <p>Mynychodd 153 ymarferwyr Cymraeg ail iaith sesiwn hyfforddi yn y flwyddyn academaidd 2017/18</p>	<p>(Gwirioneddol) 4 aelod o staff (Mae un aelod o staff ar gyfer pob clwstwr yn cymryd rhan yng Nghynllun Sabothol Llywodraeth Cymru – Menter Cymraeg mewn Blwyddyn)</p> <p>(Gwirioneddol) Mae dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi cyflawni Gwobr Arian y Siarter</p> <p>(Gwirioneddol) Mae 11 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi cyflawni Gwobr Efydd y Siarter</p>	<p>4 aelod o staff (Mae un aelod o staff ar gyfer pob clwstwr yn cymryd rhan yng Nghynllun Sabothol Llywodraeth Cymru – Menter Cymraeg mewn Blwyddyn)</p> <p>Mae dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi cyflawni Gwobr Aur y Siarter</p> <p>Mae 11 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi cyflawni Gwobr Arian y Siarter</p> <p>Mae 25 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi cyflawni Gwobr Efydd y Siarter</p>

Gweithred	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Terfyn	Yn Arwain	Diweddariad	Effaith
1. Archwilio sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg bob blwyddyn ym mhob ysgol a lleoliad er mwyn asesu anghenion hyfforddi	12/2018	Ar fynd	Perfformiad AB		<ul style="list-style-type: none"> Cafodd archwiliad dadansoddiad anghenion iaith a methodoleg ysgolion cynradd rhanbarthol ei gwblhau yn Hydref 2018 Archwiliad Sgiliau Iaith Gymraeg yr ALI i'w dosbarthu i bob ysgol a lleoliad ym mis Ionawr 2019
2. Cytuno ar gynllun systematig gydag ysgolion a chlystyrau i ryddhau staff i gymryd rhan yn y Cynllun Sabothol Llywodraeth Cymru	12/2018	04/2019	Safonau/GCA/GAR		<ul style="list-style-type: none"> Trafod canlyniadau'r dadansoddiad anghenion a'r Archwiliad Iaith Gymraeg Ysgolion gyda'r ysgolion/clystyrau i gytuno i ryddhau staff i gymryd rhan yng nghynllun sabothol LIC 2019/20

3. Mae ysgolion yn nodi rhyddhad systematig staff i gymryd rhan yng Nghynllun Sabothol Llywodraeth Cymru o fewn cynlluniau hyfforddi blynyddol	05/2019	09/2020	Ysgolion /GCA		<ul style="list-style-type: none"> Bydd cynlluniau hyfforddi blynyddol 2019/20 ysgolion yn nodi'r camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i wella sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr, gan gynnwys rhyddhau staff i gymryd rhan yng Nghynllun Sabothol Llywodraeth Cymru.
4. Bydd cynlluniau gwella ysgol yn nodi gwelliant sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr a gweithio gyda'r tîm Cynghori Cymraeg fel mater o flaenoriaeth.	05/2019	09/2020	Ysgolion /GCA		<ul style="list-style-type: none"> Mae pob cynllun ysgol yn nodi sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr yn gwella a gweithio gyda'r tîm Cynghori Cymraeg fel blaenoriaeth yn 2019/20
5. Gwella sgiliau methodolegol ymarferwyr drwy fentrau clwstwr ysgol-i-ysgol dynodedig	09/2018	09/2020	GCA		<ul style="list-style-type: none"> Mae Ysgolion Rhwydwaith Arweiniol wedi darparu cymorth ysgol i ysgol i ddatblygu mentrau rhanbarthol gan gynnwys: Y Siarter Iaith Gymraeg fel ail iaith, datblygu adnoddau ar gyfer y TGAU newydd a Chymraeg Campus. Mae tair ysgol gynradd Sir Fynwy a dwy ysgol uwchradd yn Ysgolion Rhwydwaith Arweiniol
6. Sicrhau bod pob swydd newydd yn cynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel sgil dymunol	09/2017	09/2020	Gwasanaethau Pobl		<ul style="list-style-type: none"> Pob swydd newydd yn cynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel sgil dymunol
Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus	09/2018	09/2020	Fforwm Addysg Gymraeg		

Tracio cynnydd Cynllun Gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Fynwy 2017-2020

Outcome	Diweddariad Hydref 2018	Diweddariad Gwanwyn 2019	Diweddariad Haf 2019	Diweddariad Hydref 2019	Diweddariad Gwanwyn 2020	Diweddariad Haf 2020
Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg						
Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd						
Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.						
Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.						
Mwy o fyfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg						
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol						
Cynllunio gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.						